Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Plant Bethel**

**Y Caban, Ysgol Gynradd Bethel**
**Bethel**
**Caernarfon**
**LL55 1AX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb Plant Bethel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Gwion Owen |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Mai 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant ac yn eu helpu i feithrin eu sgiliau'n effeithiol. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mae digon o amrywiaeth i ennyn diddordeb y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal yn ddiogel a bod unrhyw risgiau yn cael eu rheoli yn briodol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chaiff y rhain eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

## Llesiant

Mae'r plant yn hapus ac yn cyfathrebu'n hyderus. Maent yn gwneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser a gallant wneud yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt. Maent wedi ffurfio cydberthnasau agos â'r staff ac yn rhannu jôcs a straeon â nhw yn aml. Mae'r plant yn gwybod y gallant ofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Er enghraifft, maent yn gofyn i'r staff am help i fynd â theganau awyr agored allan o'r sied neu am gymorth i roi ffilm ymlaen.

Mae'r plant wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn teimlo'n hyderus i siarad â'r staff ac maent yn gwybod y gallant fynd atynt am dawelwch meddwl neu gysur pan fydd angen. Maent yn mwynhau rhannu eu cyflawniadau â'r staff a'u ffrindiau ac maent yn gwybod y cânt eu dathlu. Er enghraifft, pan fyddant wedi gweithio'n dda yn yr ysgol neu wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau a drwy ddangos i'r staff eu bod wedi dysgu i reidio beic eu hunain.

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent y chwarae'n dda â'i gilydd ac yn dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u ffrindiau ac yn cymryd tro ac yn rhannu adnoddau heb fawr ddim ffwdan. Er enghraifft, maent yn cymryd tro i reidio ar y beiciau, chwarae tenis a defnyddio'r stiltiau wrth chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn canolbwyntio ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, gallant ganolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig i wneud patrymau â gleiniau bach neu greu cuddfan.

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau am sut maent yn treulio'u hamser ac maent yn dod yn fwyfwy annibynnol.  Maent yn symud yn rhydd rhwng gweithgareddau ac yn tynnu allan y teganau a'r adnoddau y maent yn eu dewis yn annibynnol. Mae'r plant hefyd yn tacluso ar ôl eu hunain yn ystod amser byrbryd ac ar ddiwedd gweithgareddau.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach.  Maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn.  Mae nifer priodol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gymorth cyntaf pediatrig hefyd. Mae'r staff yn cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn briodol, yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob tymor a chaiff y rhain eu cofnodi'n llawn.

Mae'r staff yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff; maent yn darparu byrbrydau iach ac yn cynllunio digon o gyfleoedd i'r plant dreulio amser yn yr awyr agored. Maent hefyd yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac maent wedi rhoi mesurau hylendid ychwanegol ar waith oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd ac maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol wrth drin bwyd.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â'r plant mewn ffordd garedig a thawel, ac yn rhoi cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar y plant. Maent yn delio â mân anghydfodau neu ymddygiad digroeso yn gadarnhaol yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad.  Er enghraifft, drwy dynnu sylw'r plant pan fyddant yn dechrau cecru, gan eu cyfeirio at weithgaredd arall neu ddarparu cymorth i'w helpu i ddatrys unrhyw anghydfodau. Maent yn rhoi digon o ganmoliaeth i'r plant am ddilyn cyfarwyddiadau, dangos cwrteisi a chwblhau gweithgareddau.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn casglu digon o wybodaeth am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau mynychu, sy'n eu helpu i gynllunio yn effeithiol.  Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o weithgareddau i ddatblygu sgiliau corfforol a chymdeithasol y plant, megis tenis, creu cuddfan, beicio a chwarae dychmygus.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel. Mae’r safle yn ddiogel ac yn groesawgar. Cedwir cofnod cywir o bresenoldeb y plant a'r staff ac mae'r rhieni yn llofnodi wrth gasglu eu plant o'r gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a sut y caiff y rhain eu rheoli. Caiff yr asesiadau risg hyn eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd yn unol ag unrhyw newidiadau, gan gynnwys unrhyw newidiadau i ganllawiau'r llywodraeth yn ystod pandemig COVID-19.

Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas ac archwilio'r ardaloedd chwarae. Caiff teganau ac adnoddau eu storio o fewn cyrraedd y plant mewn blychau sydd wedi'u labelu'n glir. Mae amrywiaeth dda o deganau, gan gynnwys gemau bwrdd, doliau, cyflenwadau crefft a theganau adeiladu. Mae hefyd ystafell synhwyraidd newydd sydd â goleuadau bach a thiwbiau swigod lle y gall y plant ymlacio a threulio amser tawel ac ymarfer defnyddio eu synhwyrau. Mae'r staff yn arddangos samplau o waith celf y plant yn ddeniadol ar hysbysfyrddau, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnig cyfleoedd digonol i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dysgu drwy chwarae, gan gynnwys beiciau a chyfarpar chwaraeon. Mae deunyddiau wedi'u hailgylchu hefyd ar gael i'r plant ddatblygu eu sgiliau dylunio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Maent mewn cyflwr da ac yn lân. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym eu bod yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gofnodi. Mae digon o adnoddau amlddiwylliannol a Chymreig ar gael er mwyn i'r plant ddysgu mwy am y byd y maent yn byw ynddo.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â nhw ac yn sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad eu dilyn yn effeithiol. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Mae polisïau manwl ar waith sy'n amlinellu'r holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod pandemig COVID-19, gan olygu bod y staff yn deall yn union yr hyn a ddisgwylir ganddynt i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn adolygu polisïau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth gyfredol. Fodd bynnag, mae angen i'r polisi cwynion gynnwys y terfynau amser ar gyfer delio â chwyn ac mae angen i'r polisïau diogelu gynnwys gwybodaeth am atal radicaleiddio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod yn datblygu ac yn gwella'r lleoliad yn barhaus. Maent yn ceisio adborth ar lafar gan y rhieni, y staff, y plant a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd, a hynny drwy holiaduron adborth. Mae adroddiad a ysgrifennwyd yn dilyn adolygiad y llynedd o ansawdd y gofal yn cynnwys pa welliannau a wnaed a'r rhai a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol mewn ymateb i'r adborth a gafwyd. Er bod adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael ei gynnal, roedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi methu â chyflwyno'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o fewn y terfyn amser sy'n ofynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ac maent yn eu cefnogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu eu hanghenion hyfforddiant. Cedwir cofnod mewn ffeiliau staff unigol o'r trafodaethau un i un hyn. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Maent yn cadw tystiolaeth yn y ffeiliau o'r wybodaeth a gesglir gan y rhieni am anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Ymatebodd y rhieni yn gadarnhaol. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn cyfathrebu'n dda a'u bod yn cael tawelwch meddwl drwy gael diweddariadau dyddiol ar ofal a datblygiad eu plentyn.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Cynnwys yr amserlenni ar gyfer delio â chwyn yn y polisi cwynion.

A2 – Cynnwys cyfeiriad at ddyletswydd ‘Prevent’ yn y polisi diogelu.

A3 – Cadw cofnod yn nodi pryd y caiff teganau ac adnoddau eu glanhau.

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni | |
|---|---|
| Nid oedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod yr holl ddogfennaeth reoleiddiol ofynnol wedi'i chynnwys yn ffeiliau'r staff. SP | |

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod risgiau wedi cael eu nodi a'u rheoli'n briodol. | Rheoliad 25 (c) |

Os na fydd darparwyr yn llwyddo i wella, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Os bydd darparwyr yn methu â gweithredu â blaenoriaeth, gallwn uwchgyfeirio'r mater at
Banel Gwella a Gorfodi.

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 17, oherwydd ni wnaeth gyflwyno'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) o fewn y terfyn amser sy'n ofynnol. Roedd adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael ei gynnal ac roedd adroddiad wedi cael ei ysgrifennu mewn ymateb i'r adborth a gafwyd. Ni welwyd effaith andwyol ar y plant nac ansawdd y gofal a ddarperir. | Rheoliad 17 (2) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/11/2021